## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (124)

## Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 9 Mawrth 2005

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**.......................................**

## 2.32pm

**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Questions 3+5 were grouped together for answer.**

**.......................................**

**3.01pm**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
**Gofynnwyd y cwestiwn.**

**.......................................**

**3.03pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Comisiynydd Plant**

**......................................**

**3.36pm**
**Cynnig i gymeradwyo yn unol a Rheol Sefydlog 25 Adran 3 Cyfarwyddiadau Pwerau Creu Incwm Awdurdodau Iechyd Arbennig 2005**

**NDM2342 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 25.13:**

**1. Yn cymeradwyo'r drafft o Gyfarwyddiadau Pwerau Creu Incwm Awdurdodau Iechyd Arbennig 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2005; ac**

**2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Cyfarwyddiadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39**
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weinidog o dan Ddeddf Plant 2004 _ TYNNWYD YN OL**

**NDM2341 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

**Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau canlynol y Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Plant 2004 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir eu dirprwyo yn ôl y gyfraith:**

**Adran 25 is-adrannau (8) a (9), Adran 26 is-adran (5), Adran 27 is-adran (4), Adran 28 is-adrannau (4) a (5), Adran 29 is-adrannau (1)(b), (9), (13) ac (14), Adran 30, Adran 34 is-adran (2) a (3), Adran 38, Adran 41 ac Adran 59.**

**Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.**

**Dirprwyir y rhain gan wybod y bydd y swyddogaethau hynny yn cael eu dirprwyo ymhellach, fel y bo’n briodol, i Weinidogion priodol y Cynulliad ac i’r staff.**

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:**

**Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Lafur y Cynulliad wedi methu yn ei thrafodaethau gyda’i chydweithwyr yn Llywodraeth y DU ynghylch penderfyniad unfrydol y Cynulliad Cenedlaethol (NDM1939, 4 Mai 2004) y dylid ymestyn pwerau Comisiynydd Plant Cymru i gynnwys y meysydd polisi hynny nad ydynt wedi’u datganoli.**

**.....................................**

**3.37pm**

**Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 3**

**NDM2340 Jenny Randerson (Canol Caerdydd):**

**Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 37:**

**1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth; a**

**2. Yn cymeradwyo'r diwygiad a wnaed i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes.**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41**
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**3.38pm**

**Cynnig i gymeradwyo penderfyniadau ynglyn ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion**

**NDM2338 John Marek (Wrecsam)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 3, ac yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion, yn penderfynu y dylid diwygio Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r amodau a'r telerau a ddiwygiwyd yn y Cynllun, a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 1 Mawrth 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Derbyniwyd y cynnig**

**NDM2339 John Marek (Wrecsam)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adrannau 16, 18 a 34A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 3, ac yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion, yn cymeradwyo "Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau ac ati)" a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 02 Mawrth 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Derbyniwyd y cynnig**

**.......................................**

**4.43pm**

**Dadl am Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Berthynas rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**NDM2337 David Melding (Canol De Cymru)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 6.6 a 9.9, yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, "Adolygiad o'r Rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**4.23pm**

**Y ddadl fer**
**NDM2343 Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn): Pwy sy'n Rhedeg y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.42pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 15 Mawrth 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 8 Mawrth 2005**

- **The Council Tax (Situation and Valuation of Dwellings) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - LD3579** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- **The Council Tax (Reductions for Disabilities and Transitional Arrangements) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - LD3580** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- **The Fire and Rescue Services (National Framework) (Wales) Order 2005-Regulatory Appraisal - LD3581** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

- ☐ **The Non Domestic Rating (Alteration of Lists & Appeals) Wales Regulations - LD3582** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- ☐ **Egwyddorion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn penderfynu, yn unol ag adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a yw gofynion cyllideb awdurdodau lleol ar gyfer 2005/06 yn ormodol - LD3583**
- ☐ **The Public Audit (Wales) Act 2004 (Consequential Amendments) (Wales) Order 2005- Regulatory Appraisal - LD3584** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- ☐ **The Public Audit (Wales) Act 2004 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2005- Regulatory Appraisal - LD3585** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- ☐ **The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005- Memorandum Of Corrections - LD3586** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- ☐ **The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005- Regulatory Appraisal - LD3587** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- ☐ **Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 Memorandwm Cywiriadau - LD3588**
- ☐ **Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005 - LD3589**
- ☐ **The Children Act 2004 (Amendment of Miscellaneous Regulations) (Wales) Regulations 2005- Regulatory Appraisal - LD3590** ***Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- ☐ **Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar Reoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio ar gyfer Argyfwng) 2005 - LD3578**

## Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 8 Mawrth 2005

- ☐ **LC1036 - Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005 - LD3571**
- ☐ **LC1037 - Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 - LD3572**
- ☐ **LC1039 - Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 - LD3573**
- ☐ **LC1041 - Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3574**
- ☐ **LC1042 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3575**
- ☐ **LC1045 - Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) 2005 - LD3576**
- ☐ **LC1046 - Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 - LD3577**